

Cofion

Yr ydym yn codi Bob Davies (Llanfair) a Rhiannon Davies (Tanyfron) yn ein gweddiâu heddiw eto. Mae Bob yn parhau yn Ysbyty Llandudno ond mae Rhiannon yn gobeithio y bydd yn cael dod adre y penwythnos hwn. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu gwarchod a'u cynnal, ac y byddant yn cryfhau yn fuan iawn. Cofiw'n hefyd am eu teuluoedd, gan ddiolch am eu gofal a'u hymroddiad.

Ymateb i Argyfwng y Philipines

Mae'n siŵr ein bod ni i gyd wedi dychryn o weld lluniau'r drychineb yn y Philipines yn dilyn y corwynt erchyll. Os dymunwch gyfrannu, cofiwch bod modd gwneud hynny drwy'r *Disaster Emergency Committee* mewn amrywiol ffyrdd, neu gallwch gyfrannu trwy'r Ofalaeth gan ddefnyddio'r amlenni melyn hyn gan *Tearfund*. Mae mwy o amlenni ar eu ffordd a gobeithiwn y byddant ar gael erbyn dydd Sul nesaf. Holwch un o'r blaenoriaid am amlen a'i dychwelyd i Mair erbyn Rhagfyr 8fed, os gwelwch yn dda. Dylid gwneud unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', ac os yw'n bosibl i chi hefyd lenwi ac arwyddo'r ffurflen rhodd cymorth sydd ar yr amlen, byddai hynny hefyd yn cynyddu gwerth eich rhodd ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.



I ddod

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – Cyfarfod Nadoligaidd Arbennig yng nghwmni Sioned Terry nos Lun, Tachwedd 25ain yn Neuadd Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i ddynion a merched.
- **GWASANAETH SEFYDLU Y PARCH. HYWEL EDWARDS** yn weinidog ar Ofalaeth Ardal Thomas Charles nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7.00 yng Nghapel Tegid, y Bala. Croeso i bawb.
- **OEDFA ARBENNIG I'R FRO** pryd y cawn gwmni Arfon Jones a fu'n gyfrifol am gyfieithu'r Beibl i Gymraeg cyfoes – Beibl.net
- **NOSON ARBENNIG I LANSIO'R LLYFR "CAPEL CEFN MEIRIADOG DDOE A HEDDIW"** gan Mr Meurig Owen yng Nghefn Meriadog Nos Iau, Rhagfyr 5ed am 7.30. Bydd cyfle ar ôl y lansiô am sgwrs, paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.
- **HWYL YR WYL** ar gyfer oedrannau 7-11 oed yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Rhagfyr 7fed rhwng 10.00–5.30. Y pris fydd £12 y plentyn ac £8 i'r ail blentyn. Cysylltwch â'r Coleg erbyn Tachwedd 21ain i archebu lle: (01678) 520565.
- **GWASANAETH CAROLAU I'R FRO** yn Llansannan nos Sul, Rhagfyr 15fed am 6.00.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Berain am 9.30.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 29ain am 10.00 yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17^{eg} Tachwedd 2013

Darlleniad y Dydd

1 Cronicle 29:1-5

(BCND tud.392 / BCN: tud.359)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Mae'n anodd iawn i ni fedru amgyffred dylanwad y Beibl ar y byd! Mae wedi effeithio ar fyd y gyfraith a hawliau dynol, ar ganu a cherddoriaeth, ar wyddoniaeth, llenyddiaeth a chelfyddyd o bob math ac, wrth gwrs, ar grefydd. Ond tybed faint o ddylanwad uniongyrchol a gaiff y Beibl arnom ni o ddydd i ddydd?

Yr wythnos yma cefais y fraint o fynychu cyfarfod o'r Feibl Gymdeithas yn y Bala lle buom yn trafod yr hyn a fwriedir ei wneud gan y Gymdeithas gydag adeilad hen Eglwys Llanycil. Y syniad ydi creu canolfan a fydd yn gyfrwng dathlu dylanwad y Beibl ar Gymru a'r byd. Ond lle mae dechrau! Fe fydd stori Mari Jones yn cerdded i gyrchu Beibl gan y Parch. Thomas Charles yn ganolog gan ei bod yn mynegi'r angen a'r dyhead dwfn am Feibl – am Air bywiol Duw – sydd yn gyffredin i gymaint o bobl ar draws y byd. Mae miliynnau yn parhau i aros am y Beibl yn eu hiaith eu hunain ac mae gwaith y Gymdeithas o gyfieithu a dosbarthu'r Beibl yn parhau i fod yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd yng nghyfnod Mari Jones.

Apêl sydd gen i heddiw felly i chi ar ran y Gymdeithas. Y nod yw creu arddangosfa ddigidol a gweledol o hanes a dylanwad y Beibl yng Nghymru a'r byd. Bydd yr arddangosfa yn rhan ganolog o'r Ganolfan newydd yn adeilad hen eglwys Llanycil a fydd yn cael ei hadnewyddu a'i hagor ar ei newydd wedd ar y 5ed o Hydref 2014 – dwy ganrif ers marw Thomas Charles. Mae'r Gymdeithas yn awyddus i gael y stori'n llawn; felly os gwyddoch chi am stori o Gymru am ddylanwad y Beibl neu os oes gennych chi wybodaeth am bobl a fu'n dosbarthu'r Beibl yna, rhwng wybod. Efallai fod gennych wybodaeth neu hanesion am genhadon o Gymru a fu'n cyfieithu'r Beibl neu stori gyfoes am ddylanwad y Beibl arnoch chi, yna anfonwch ataf, neu at Rhodri neu Mair, er mwyn i ni eu hanfon ymlaen at y Gymdeithas. Gan fod yr arddangosfa am fod yn ddigidol mae modd gosod a storio llawer iawn o wybodaeth ar y cyfrifiaduron i bobl gael ymchwilio iddynt a'u darllen. Diolch i chi.

Ar yr un thema, cofiwch y bydd Arfon Jones yn dod atom ar y Sul cyntaf o Ragfyr, os Duw a'i myn, i agor y Gair i ni ac i drafod ei waith yn cyfieithu'r Beibl i Gymraeg cyfoes – Beibl.net. Gweddiwn drosto a thros waith y Gymdeithas, a gweddiwn hefyd y bydd pawb a fydd yn cael clywed am Iesu heddiw ar draws y byd yn cael credu ynddo a'i addoli. Dyma fydd ein braint ninnau.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth
lau • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn y Groes am 7.30.
• **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
• **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth a Throsoglwyddo'r Llywyddiaeth i Mr Caerwyn Davies a'r Ysgrifenyddiaeth i Mr Stan Lyall am 6.00.
- **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Ebeneser, Trelawnyd. Yn dilyn y materion busnes, bydd Mr Arwel Roberts yn ein hannerch a'n harwain at Fwrdd y Cymun.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Bydd Cymdeithas Llansannan yn cyfarfod yn Festri Capel Coffa Henry Rees am 7.30 yng nghwmni Mrs Cath Williams.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- lau Bydd Cymdeithas Peniel yn cyfarfod am 7.30 pryd y bydd Y Parch Eifion Jones yn rhoi sgwrs – 'Pobl a Phethau.'
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.
- lau Bydd Cymdeithas Cefn Berain yn cyfarfod am 7.30 pryd y bydd cwis hwyliog dan ofal Eryl Jones. Croeso i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau